

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Fawrth 2017

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Jim Boughton, Gwawr Jones, Janet Charlton, Gareth Parry, Terry Bullock, Marion Bettenev, Siân Godbert, Karen Pugh, Meirion Owen, Nick Corney, Elisabeth Roberts, Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Datgan diddordeb; Datganwyd diddordeb gan y Cyng. Siân Godbert yng nghofnod 1.3 [a] & [1.9] Penderfynwyd nad oedd yn rhagfarnu ar y materion dan sylw

Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Chwefror 2017

(1)Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clerch at sylwadau gan SCHG Phil Gales yn dweud bod rhywun wedi cerdded i mewn i eiddo gwely a brecwast yn y pentre' ac wedi lladrata oddi yno tra bu'r perchennog mewn rhan arall o'r adeilad. Nid oedd dim digwyddiad arall

[1.1] Byrddau Picnic/Tan Dinas

Penderfynwyd gwneud ymholiadau i geisio bwrdd picnic ar gyfer yr anabl ar lwybr Tan Dinas.

[1.2] Creu Mynedfa Newydd I'r Neuadd Goffa

Dywedodd y clerch iddo drafod y cynllun gyda Swyddog Cynllunio'r Parc a bod rhaid cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer y cynnig. Penderfynwyd bwrw mlaen gyda chais.

Y brif Agenda

[1.3] Ceisiadau Cynllunio

[a] Ail adeiladu rhan o'r wal bae ffrynt, codi waliau yn y cefn ayb. Yr Hen Dollborth, Pont-yr-Afanc

[b] Codi tŷ, Llain 4, Parc Trawsafon

[c] Cais am ganiatâd hysbysebion i arddangos arwyddion allanol heb eu goleuo , Ffordd yr Orsaf.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r 3 cais uchod.

[d] Cais I ddiddymu Cytundeb Adran 52 dyddiedig 21ain Fawrth 1982, Gwêl y Dyffryn, Parc Trawsafon.

Penderfynwyd anfon at APCE fod y Cyngor o'r farn bod Cytundeb Adran 52 yn parhau i fod yn bwrpasol ac nad oedd y Cyngor yn cytuno bod gostyngiad yn y gwerth i £315,00 allan o gyrraedd rhan fwyaf o bobl leol. Mae'r Cyngor felly o'r farn bod y rhesymau a osodwyd ar y cais cynllunio gwreiddiol yn parhau i fod yn ddilys

[1.4] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed yn ystod mis Chwefror 2017.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Chwefror 2017.

[1.5] Mynediad Agored i Afonydd Cymru

Nodwyd ateb gan Guto Bebb AS, ond yn siomedig nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan aelod y cynulliad Janet Finch Saunders.

[1.6] Ciosg BT

Gan nodi bod BT yn bwriadu cau'r tri ciosg yn y gymuned, y clerc i wneud ymholiad ynglŷn â cheisio prynu ciosg i'r pentref.

[1.7] Creu Swigod/Cae Llan

Dyweddodd y clerc er iddo wneud amryw o geisiadau yn gofyn am dal am ddefnyddio'r cae, roedd pob cais yn cael ei anwybyddu. Penderfynwyd felly i geisio cyngor cyfreithiol.

[1.8] Cais am gyfraniad gan Gyfeillion Ysgol Betws-y-Coed

Y clerc i gesio mwy o wybodaeth gan Ms Tamzyn Lawrence.

[1.9] Clwb Peldroed Betws-y-Coed

Penderfynwyd cyfrannu £500.00

[2] Ffederaleiddio Ysgolion Betws-y-Coed/Capel Garmon/Dolwyddelan

Deallwyd bod y gyllideb ar gyfer trafndiaeth yr ysgolion yn achosi pryder. Penderfynwyd felly i gyfrannu £1,700.00.

[2.1] Planter Gyferbyn a Gwesty'r Waterloo

Cytunodd y Cyng. Gareth Wynne I wneud ymholiad ynglŷn â chael planter newydd.

[2.2] Caeadau Manholes

Deallwyd bod y caeadau canlynol yn rhydd [a] Gyferbyn a Maes Derwen [b] Gyferbyn a Pont-y-Pair. Y clerc i anfon y mater ymlaen.

[2.3] Goleudau Stryd

Cytunodd y Cyng. Elisabeth Roberts i wneud ymholiad ynglŷn ar ffaith nad oedd goleuadau gyferbyn a Gorffwysfa ac ymlaen.

Gareth Wynne, Cadeirydd